

Dechrau Blwyddyn

Darlleniad 1 : Mathew 6: 25-34

Darlleniad 2 : Salm 110

Ein Tad tragwyddol, diolchwn i ti am gyfle i droi atat gyda'n gilydd ar ddechrau blwyddyn arall. Cyfaddefwn ein bod yn edrych i'r gorffennol a'r dyfodol. Wrth wneud hynny, ni allwn beidio â theimlo'n bychander yn wyneb treigladau amser. Byr ac ansicr yw'n heinioes ni ond yr wyt ti'n Dduw 'o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb'. Eto, at bwy yr awn ni ond atat ti yn Iesu Grist, oherwydd gennyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol.

Ceisiwn dy gymorth yn ostyngedig i'n sefydlogi ni'n hunain ac i allu canolbwyntio ein meddyliau arnat ti. Gwibiog ac ansefydlog yw ein meddyliau ni ar y gorau, ond yn arbennig felly ar ddechrau blwyddyn. Symudwn o hyd rhwng ddoe ac yfory. Nid ydym yn fodlon ar y gorffennol a phryderwn am y dyfodol. Ni allwn newid dim ar y gorffennol ac ni wyddom beth a all ddigwydd yn y dyfodol. Dyro inni brofiad y Salmydd mai 'ti Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni ym mhob cenhedlaeth'. Trwy dy gynhaliaeth di y daethom cyn belled â hyn ac ni allwn gamu allan o'th ofal a'th gynhaliaeth.

Diolchwn i ti, O! Dduw, am brofiad cyfoethog y Salmydd ac am iddo'i groniclo mewn cerdd afaelgar. Ni wyddom ddim amdano nac am amgylchiadau ei fyw. Ni wyddom pryd yr oedd ef yn teithio'r ddaear hon. Ond gwyddom iddo yntau yn ei dro deimlo'i fychander a'i ansicrwydd a'th gael di'n breswylfod iddo. Dyro i ninnau heddiw ymwybyddiaeth o'th fawredd anchwiliadwy ac o'th agosrwydd diarwybod atom. Dyro i ninnau allu mynegi yn ein bywydau yr hyn a fynegodd y Salmydd yn ei gerdd.

Yn ein hymwybyddiaeth ohonom ein hunain, galluoga ni i archwilio'n calonau a'n meddyliau. Dyro inni ddwyster a gonestrwydd i wneud hynny, fel y gwnaeth eraill ar hyd y canrifoedd.

‘Chwilia f’enaid, gyrrau ’nghalon,
Chwilia’i llwybrau maith o’r bron,

Chwilia bob ystafell ddirgel,
Sydd o fewn i gonglau hon:
Myn i maes bob peth cas
Sydd yn atal nefol ras.'

Gwna ni'n ymwybodol na allwn guddio dim rhagot. 'Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron, ein dirgel bechodau yng ngoleuni dy wyneb.' Cryfha'n hymddiriedaeth ynot fel y gallom ein mynegi ein hunain ger dy fron.

O! Arglwydd, cyn inni gychwyn ar flwyddyn newydd dyro inni geisio cael gwared â'r flwyddyn sydd wedi mynd heibio. Diolchwn am y cyfan a gawsom mewn gwybodaeth a phrofiad ac am bob datblygiad mewn meddwl ac ysbryd. Trysorwn y profiadau a gawsom yn ein perthynas â'n gilydd ac yn ein perthynas â thydi, profiadau a fydd yn gymorth inni yn y dyfodol. Ond dyro inni gael gwared â'r pethau sy'n ein caethiwo ac yn ein darostwng, yn ein perthynas â'n gilydd ac yn ein perthynas â thi. Dyro inni gael gwared â'r pethau sy'n faich ac yn rhwystr ac na allwn eu cario ymhellach. Boed inni eu bwrw ymaith - rhagfarnau, geiriau cas, eiddigedd, anffyddlondeb, methiant i gymodi, a llu mawr o wendidau eraill y cawn hi'n anodd eu cyffesu a'u cydnabod ger dy fron ac y gwyddom dy fod ti wedi eu maddau. Dyro inni o'r newydd brofiad yr emynydd:

'Mi dafla 'maich oddi ar fy ngwar
Wrth deimlo dwyfol loes;
Euogrwydd fel mynyddoedd byd
Dry'n ganu wrth dy Groes.'

Dyro inni gael gwared â beichiau a gofidiau y flwyddyn a aeth heibio. Gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd Glân i ymgyflwyno i Iesu Grist gan sylweddoli mai 'Ef yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd'. Ynddo ef, ac iddo ef a thrwyddo ef y gallwn fyw'n llawn. Gwna ni'n fwy anturus dros Iesu Grist yn ein cenhadaeth. Gwna ni'n fwy ffyddlon iddo yn ein byw. Gwna ni'n fwy didwyll yn ein haddoliad. Gwna ni'n fwy tebyg iddo. Trwy hyn oll, dyro inni allu byw'n llawnach, yn ffyddlonach ac yn helaethach, fel plant i ti. Dyro inni allu rhedeg ein gyrfa gan edrych ar Iesu, pentywysog a pherffeithydd ein ffydd, er gogoniant i'th enw. Amen.

John Owen